# <u>CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY</u>

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116

# Hysbysiad o Gyfethol

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned LLANYSTUMDWY yn bwriadu Cyfethol 1 aelod i lenwi'r sedd gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd ward LLANARMON.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.[2]

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned yn Derwen Gam, Chwilog, neu 01766 810 614 ar ol 5:00 yr hwyr, neu drwy ebost clercccllanystumdwy@gmail,com erbyn

**<u>25.11.2024</u>**

Dyddiedig y 4ydd diwrnod hwn o Dachwedd 2024

[2] Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.